**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o’r gloch Nos Fawrth, 19 o Dachwedd 2019**

**Presennol:** Cyng. Sharon Wyn Parry (Cadeirydd)
Cyng. Gwilym O. Jones
Cyng. William Victor Owen
Cyng. Einir Thomas
Cyng. Dyfed Williams

**1. Ymddiheuriadau:** Cyng. Celfyn Furlong, Siân Enfys Jones, Gordon Owen a Beryl Salisbury.

**2. Datganiad o ddiddordeb: - dim.**

**3. Cofnodion cyfarfod 15eg o Hydref**
Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Gwilym O. Jones, eilio Cyng. Einir Thomas.)

**4. Materion yn codi o’r cofnodion:**

1. Cae Chwarae - Cytunodd Cyng. Victor Owen a Dyfed Williams i osod yr arwyddion newydd cyn gynted ag y byddai'r tywydd yn gwella. Nodwyd bod gwaith da wedi'i wneud ar y sleid.

2. Lloches Fws Stad Tre Ifan – Roedd Valley Forge wedi darparu dyfynbris derbyniol ar gyfer ychwanegu dau banel ochr yn lle'r panel un ochr a hanner cefn y gofynnwyd amdano o'r blaen. Felly roedd y clerc wedi comisiynu'r gwaith a byddai'n cael ei wneud yn fuan.

3. Llwybrau - Byddai Cyng. Dyfed Williams yn paratoi'r mapiau ac yn penderfynu pa rai oedd angen eu torri cyn symud ymlaen gyda’r ymarfer tendro.

4. Ffordd Minffordd - Roedd yna ordyfiant yn dal i rwystro'r hen fynedfa i Minffordd Cottage. Byddai'r Cyng. Gwilym Jones yn gofyn i'r Swyddogion Priffyrdd archwilio'r safle.

   Nodwyd bod dwy lamp stryd nad oeddent yn gweithio wrth Tyn Rhos.

5. Unrhyw faterion eraill sy'n codi o'r cofnodion:
   Goryrru ar Ffordd Minffordd - Roedd CSYM wedi ymateb i Cyng. Gwilym Jones am y pwyntiau a godwyd gan Bennaeth Ysgol y Tywyn. Roeddent am ofyn i'r Gwasanaeth Gorfodi Cyflymder ddefnyddio swyddog beic modur y tro nesaf yr oeddent yn yr ardal gan fod modurwyr yn llai abl i rybuddio gyrwyr eraill am bresenoldeb cerbyd gorfodi. Fe wnaethant hefyd nodi'r pryderon ynghylch nifer o breswylwyr sy'n parcio ar Ffordd Minffordd. Fodd bynnag, roeddent o'r farn y byddai cyflwyno cyfyngiadau parcio yn creu problemau mewn mannau eraill, roedd ceir wedi eu parcio yn ffordd effeithiol iawn o arafu traffig ar y lôn gan fod

angen i yrwyr fod yn ofalus i ganiatáu i draffig i'r cyfeiriad arall basio.

Nodwyd y byddai CSYM yn ceisio am arian gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno parthau 20mya ar gyfer pob ysgol ar yr Ynys.

**5. Penderfyniadau Cynllunio : dim**

**6. Ceisiadau Cynllunio**

1. **FPL/2019/299 Ysgol Y Tywyn, Ffordd Minffordd, Caergeiliog.**
   Cais llawn ar gyfer codi ystafell ddosbarth symudol – dim gwrthwynebiad.

2. **HHP/2019/264 Plas Llanfair, Llanfair-yn-Neubwll.**
   Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu - dim gwrthwynebiad.

3. **HHP/2019/270 Heather Bank, Valley.**
   Cais llawn ar gyfer codi modurdy – dim gwrthwynebiad, er bod pryderon ei fod yn edrych fel annedd.

**7. Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn:**

1. Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystema - mwy o ganllawiau ar gyfer paratoi adroddiad flynyddol.
2. Cymdeithas Elusennol Ynys Môn - nodwyd
3. Newid a gynigir i Orchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) 2018 - nodwyd
4. Blaen Raglen waith y Pwyllgor Gwaith - nodwyd
5. Ymgynghoriadau Cynllunio - Llywodraeth Cymru - nodwyd
6. Ymgynghoriad Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - nodwyd nad oedd unrhyw newidiadau i'r lwfansau y cytunwyd arnynt ar gyfer aelodau.

**8. Materion Ariannol**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd yr Adroddiad Ariannol hyd at 31 Hydref 2019 ynghyd â Chysyniadau a Datganiadau Banc. Rhoddwyd copi o'r cyfrifon hyd yma i'r aelodau.

8.1 Cyfrif Cyfredol £11,731.37, Cyfrif Cadw £3,930.75

**9. <u>Taliadau i'w gwneud</u>**

Llofnod……………………………………………Cadeirydd………………………….

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog Hydref | £237.09 | GMS (INV 6030) | £108 |
| Xpose Media | £54 | Archwilydd Allanol | £248.50 |

**10. Adroddiadau Cynghorwyr**

Dywedodd Cyng. Gwilym Jones fod Adran Tai CSYM angen enwi'r clwstwr o dai newydd oedd yn cael eu hadeiladu ar waelod Stad Tre Ifan. Nodwyd yn flaenorol bod y system rifo gyfredol yn ei gwneud hi'n anodd iddynt gael eu rhestru fel Tre Ifan. Gwnaed sawl awgrym a chytunwyd y dylai'r safle gael ei alw'n Cae Ifan.

**11. Cyfarfod Nesaf – 21ain o Ionawr 2020**

Llofnod……………………………………………Cadeirydd………………………….